



Y RHWYDWAITH YMCHWIL  
IECHYD MEWN YSGOLION

SCHOOL HEALTH  
RESEARCH NETWORK

# Ymddygiadau gamblo a niwed cymdeithasol-emosiynol ymhlith pobl ifanc 11-16 oed yng Nghymru

Brîff Ymchwil Iechyd a Lles Ysgolion, Tachwedd 2019

Er bod gamblo masnachol yn y DU yn gyfreithiol ar gyfer y rheiny sy'n 18 oed a hŷn, gall pobl ifanc 16 oed a hŷn brynu cynhyrchion y loteri cenedlaethol, ac nid oes gan rai peiriannau gemau, gan gynnwys peiriannau ffrwythau, unrhyw gyfyngiad oed. Mae pobl ifanc yn cael mwy o fynediad at gamblo trwy'r rhyngwrwd. Ond pa mor boblogaidd yw gamblo ymhlith pobl ifanc yng Nghymru ac a yw'n cael effaith ar eu lles?

## Yr hyn rydym ni eisoes yn ei wybod...

Mae gamblo problemus, sy'n cael ei ddiffinio fel ymddygiad gamblo mynych sy'n arwain at drallod yn aml, yn brin ymhlith y glasoed yn y DU. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, mae'n fwy cyffredin ymhlith bechgyn, pobl ifanc hŷn, y rheiny o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, a'r rheiny sy'n teimlo'n llai cysylltiedig â'r ysgol, ac sydd â rhieni sy'n meddu ar lai o gymwysterau addysgol.

Mae gamblo problemus wedi cael ei gysylltu â lefelau is o hunan-barch, perfformiad gwael yn yr ysgol, a risg gynyddol o fod yn gaeth o bethau eraill.

Mae'r rheiny sy'n dechrau gamblo yn ystod y glasoed yn fwy tebygol o fod yn gamblwyr problemus pan fyddant yn oedolion.



## Yr hyn a wnaethom...

- Fe wnaethon ni ddefnyddio data 37,363 o fyfyrwyr ym mlynnyddoedd 7 i 11, a lenwodd Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yn 2017, i archwilio faint ohonynt oedd wedi gamblo a'r mathau o weithgareddau gamblo yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt.
- Fe wnaethon ni ddadansoddi sut roedd ymddygiadau gamblo yn amrywio yn ôl nodweddion cymdeithasol-demograffig, a chysylltioldeb ag ysgol, ac ymchwilio i a yw ymddygiadau gamblo yn gysylltiedig â niwed cymdeithasol-economaidd.
- Roedd y nodweddion cymdeithasol-demograffig y gwnaethon ni eu mesur yn cynnwys rhyw, cyfoeth teuluol, ethnigrwydd ac oedran. Mesurwyd cysylltioldeb ag ysgol trwy ofyn i fyfyrwyr a oeddent nhw'n teimlo eu bod nhw'n perthyn yn eu hysgol.
- Fe wnaethon ni fesur ymddygiadau gamblo yn ystod yr wythnos flaenorol gan ddefnyddio rhestr i 15 o weithgareddau gamblo, er enghraifft, gosod bet, cardiau crafu, peiriannau ffrwythau, bingo a safleoedd gamblo ar-lein.
- Gofynnwyd i'r myfyrwyr hefyd a oeddent nhw wedi gamblo yn ystod y 12 mis diwethaf, ac a oeddent wedi teimlo'n wael yn sgil hyn.

## Yn gryno

- Roedd bron 2 o bob 5 myfyriwr wedi gamblo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd 16% o'r rhain wedi profi teimladau negyddol yn sgil hyn.
- Roedd bechgyn, myfyrwyr o gefndiroedd Prydeinig heb fod yn wyn, myfyrwyr o aelwydydd mwy cefnog, a myfyrwyr a oedd yn teimlo'n llai cysylltiedig â'u hysgol, wedi amlygu niferoedd uwch o gamblo yn ystod y 7 niwrnod diwethaf.
- Roedd myfyrwyr a oedd yn teimlo'n llai cysylltiedig â'u hysgol yn fwy tebygol o adrodd teimlo'n wael am gamblo.



@SHRNWales



SHRN@caerdydd.ac.uk



SHRN.org.uk

## Yr hyn a ganfuom...

### Ymddygiadau gamblo

- Roedd oddeutu dau o bob pump (41%) o fyfyrwyr wedi gamblo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Y gweithgaredd gamblo mwyaf poblogaidd oedd peiriannau ffrwythau ac roedd 5% o fyfyrwyr wedi defnyddio'r rhain yn ystod y 7 niwrnod diwethaf.
- Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd nesaf oedd chwarae gemau cardiau am arian gyda ffrindiau, gosod bet breifat am arian, a phrynu cardiau crafu.

### Patrymau ymddygiadau gamblo

- Roedd bechgyn wedi adrodd cymryd rhan mewn nifer sylweddol yn fwy o weithgareddau gamblo yn ystod y 7 niwrnod diwethaf na merched, ac roedd cynnydd mewn gamblo wrth iddynt heneiddio ymhlith bechgyn, ond nid merched.
- Roedd myfyrwyr o gefndiroedd nad oeddent yn Brydeinig Gwyn, a'r rheiny o'r aelwydydd mwyaf cefnog wedi adrodd mwy o weithgareddau gamblo yn ystod y saith niwrnod diwethaf.
- Roedd y myfyrwyr a oedd yn anghytuno'n gryf eu bod

nhw'n perthyn yn eu hysgol wedi adrodd tair gwaith yn gymaint o weithgareddau gamblo yn ystod y 7 niwrnod diwethaf na'r rheiny a oedd yn cytuno'n gryf eu bod nhw'n perthyn yn eu hysgol.

### Niwed cymdeithasol-emosiynol

- O'r myfyrwyr a oedd wedi gamblo yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd 16% ohonynt eu bod nhw'n teimlo'n wael yn sgil hyn.
- Roedd cynnydd mewn oedran yn gysylltiedig â chynnydd mewn tebygolrwydd o adrodd niwed, yn enwedig ymhlith bechgyn.
- Roedd teimlo'n wael yn sgil gamblo hefyd yn fwy tebygol ymhlith myfyrwyr o aelwydydd mwy cefnog, a'r rheiny a oedd yn teimlo'n ddigyswllt â'u hysgol.



## Materion i'w hystyried

Dyma'r dadansoddiad mwyaf o ymddygiadau gamblo ymhlith pobl ifanc yn y DU.

Casglwyd yr holl ddata ar un pwynt amser (arolwg trawstoriadol), felly ni allwn ni fod yn sicr bod y cysylltiad rhwng cysylltioldeb ag ysgol a gamblo yn achosol.

Ni wnaeth y cwestiwn am gamblo yn ystod y 12 mis diwethaf ddiffinio 'gamblo', ac efallai bod hyn wedi effeithio ar ymatebion myfyrwyr, os oedd amrywiaeth o ran beth yr oedd myfyrwyr yn ei gyfrif fel gamblo.

Ni wnaeth oddeutu un o bob pum myfyriwr ymateb i'r cwestiynau am ymddygiadau gamblo a niwed cymdeithasol-emosiynol.

### Beth mae hyn yn ei olygu i'm hysgol i?

- Mae gamblo yn weithgaredd cyffredin ymhlith y glasoed yng Nghymru, a gan fod pobl sy'n gamblo yn gynt mewn bywyd yn fwy tebygol o fod yn gamblwyr problemus yn ystod oedolaeth, mae angen canolbwyntio fwy ar godi ymwybyddiaeth i niwed gamblo ymhlith myfyrwyr a'u rhieni.
- Gall ymyriadau cyfannol sydd â'r nod o gryfhau ymrwymiad myfyrwyr i gymuned eu hysgol atal ymddygiadau gamblo.

Darllenwch y papur ymchwil yn llawn. Gallwch ei lawrlwytho'n rhad ac am ddim yma:

<https://academic.oup.com/eurpub/advance-article/doi/10.1093/eurpub/ckz176/5580543>

Melendez-Torres G.J. et al (2019) Prevalence of gambling behaviours and their associations with socioemotional harm among 11–16 year olds in Wales: findings from the School Health Research Network survey. European Journal of Public Health DOI: 10.1093/eurpub/ckz176